Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgyrch Recriwtio Benthyciad o'r Tu Allan – Adrannau Eraill y Llywodraeth

Cynnwys

1. Croeso

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

3. Rolau

4. Sut i Wneud Cais

5. Proses Ddethol a Pharu

6. Telerau'r Penodiad

Atodiad A – Graddfeydd Cyflog Bob Gradd

1. Croeso

Diolch ichi am eich diddordeb yn swyddi ymchwil Llywodraeth Cymru
Nid fu ein hagenda erioed yn bwysicach ac mae'r hyn sydd angen i ni ei wneud, a phwy y mae angen inni wrando arnynt, wedi newid. Ein nod yw helpu Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i adeiladu Cymru decach, fwy cyfartal a gwyrddach. Mae pandemig Covid-19 wedi creu heriau newydd a fydd yn parhau hyd y gellir rhagweld. Yn ogystal, nawr ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), rydym yn datblygu ein ffyrdd ein hunain o gyflawni'r hyn yr oeddem yn arfer ei wneud mewn partneriaeth â'r UE.

Mae gweithio fel tîm wrth wraidd popeth a wnawn felly bydd ein swyddi'n addas i bobl sy'n gallu datblygu perthynas gydweithredol gydag ystod o bobl ar bob lefel. Bydd angen ichi fod yn agored i syniadau o amryw o ffynonellau, gan adeiladu partneriaethau cryf ar draws gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, yr undebau llafur a busnesau yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog wedi gosod fframwaith o bartneriaeth gymdeithasol: cydweithio â'n partneriaid i ddatrys problemau a chanfod atebion i'r heriau sy'n wynebu Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes ardderchog o weithio mewn partneriaeth â'i hundebau llafur. Rydym yn cefnogi staff i ymuno ag undeb llafur cydnabyddedig fel mecanwaith pwysig ar gyfer sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn y gweithle.

Mae Llywodraeth Cymru'n atebol i bobl Cymru drwy Senedd Cymru. Ein nod yw sicrhau safonau uchel o dryloywder a didwylledd, a dangos gonestrwydd, gwrthrychedd, uniondeb a diduedddrwydd ym mhopeth a wnawn. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith sy'n ysgogi, yn gefnogol, yn amrywiol, yn heriol ac yn hyblyg.

Rydyn ni i gyd yn cael ein cymell gan y gwerthoedd a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil: uniondeb, gwrthrychedd, gonestrwydd, ac amhleidioldeb. Yn ogystal â'r cod, mae gennym ein gwerthoedd a'n disgwyliadau ein hunain sy'n crisialu ein 'ffordd Gymreig' o weithio, gan adlewyrchu'r uchelgeisiau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym wedi cofleidio ffyrdd newydd o weithio a dylech allu arwain drwy esiampl wrth fabwysiadu arferion gweithio o bell a gweithio hyblyg sy'n addas ar gyfer y byd ar ôl Covid-19.

Rydym yn gweithio'n galed i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol i'r holl staff dyfu a pherfformio hyd eithaf eu gallu. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pob aelod o staff i ffynnu mewn amgylchedd gwaith cynhwysol.

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o tua £18 biliwn ac mae'n gyfrifol am ystod o feysydd gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Prif Weinidog Cymru a'i Gabinet sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru ac yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Senedd Cymru, corff deddfwriaethol Cymru sy'n cynnwys 60 Aelod etholedig.

Mae gweithlu o ryw 5,000 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, gydag oddeutu hanner ohonynt yn gweithio yng Nghaerdydd, a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd bychain yn Llundain a Brwsel, ac ystâd dramor sy'n canolbwyntio ar waith masnachu a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Gwerthoedd craidd Llywodraeth Cymru yw cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ein nod yw bod yn gyflogwr rhagorol ac yn sail i'n gwaith mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rhwydweithiau amrywiaeth bywiog a gefnogir gan uwch hyrwyddwyr a thargedau amrywiaeth i wella nifer y grwpiau a dangynrychiolir (er enghraifft staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff anabl ar bob lefel a menywod ar y lefelau uwch). Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad ac i wneud addasiadau wrth recriwtio ac addasiadau yn y gweithle er mwyn sicrhau cydraddoldeb i staff anabl. Yn ddiweddar,

rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth ar Gynhwysiant ac Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus gan ein bod yn benderfynol o gynyddu amrywiaeth y Byrddau rheoleiddiedig a byrddau eraill yng Nghymru a'n proses o ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2025 gan osod ein gweledigaeth ar gyfer ein cyflogaeth ein hunain.

Etholwyd Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2021 ac mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, a'n Strategaeth Genedlaethol – Ffyniant i Bawb. Ein huchelgais yw creu Cymru hunanhyderus, ffyniannus ac iach, a chreu cymdeithas lle mae pawb yn cael tegwch. Mae tua 25% o'r £1bn sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru yn dod o drethi Cymru.

Mae ymadawiad y DU â'r UE ar ddiwedd mis Ionawr 2020 a'r negodiadau rhyngwladol dilynol – ar ddyfodol perthynas y DU â'r UE ac ar gytundebau masnach y DU gyda gwledydd eraill – yn arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer Cymru ac ar gyfer gwaith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu. Yn ogystal, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella gwaith datblygu polisi a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gorff dwyieithog; cynhyrchir deddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal. Er nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi hyn, ac nad oes angen i chi allu siarad Cymraeg er mwyn gweithio o fewn Llywodraeth Cymru, fe fyddai sgiliau yn y Gymraeg yn gaffaeliad gwirioneddol. Rhaid i ymgeiswyr ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a rhannu ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu Cymraeg, datblygu eu Cymraeg a defnyddio eu Cymraeg yn y gweithle.

3. Y Rolau

Rydym yn chwilio am ystod amrywiol o weision sifil i weithio mewn amryw o rolau cyffrous ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae rolau ar gael ar gyfer cyfleoedd tymor byr (6-12 mis) neu gyfleoedd hirdymor (hyd at uchafswm o 2 flynedd) ac maent ar gael ar sail ran-amser, rhannu swydd ac amser llawn.

Proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) yw proffesiwn ymchwil gymdeithasol y Gwasanaeth Sifil. Mae aelodau GSR ym mhob un o adrannau'r llywodraeth, ac yn Llywodraeth Cymru mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr cymdeithasol wedi'u lleoli mewn adran ganolog, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), sydd hefyd yn cynnwys ystadegwyr. Mae nifer o ymchwilwyr cymdeithasol hefyd yn gweithio mewn swyddi o fewn timau polisi.

Mae'r amrywiaeth eang o bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ymchwilwyr cymdeithasol weithio ar draws ystod o feysydd polisi. Mae'r gwaith yn gyflym a bydd yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau dadansoddol drwy gymryd rhan mewn ymchwil i gefnogi timau polisi a gweinidogion. I wneud hyn, gall eich rôl gynnwys rhai o'r canlynol:

- Rheoli mewnol neu reoli drwy gontractau werthusiadau ar gyfer polisïau sy'n cael eu gweithredu yn y dyfodol;
- Cynnal dadansoddiad o effaith neu ddadansoddiadau dichonoldeb ar bolisi y gellir ei weithredu yn y dyfodol;
- Darparu tystiolaeth fewnol (e.e. adolygiadau o ddogfennau neu brosiectau ymchwil ar raddfa fach) ar gyfer tîm polisi;
- Darparu dadansoddiad ystadegol mewnol ar ddata arolwg omnibws;
- Rheoli contractau sefydliadau allanol i gynnal arolygon;
- Darparu rheolaeth fewnol neu reolaeth drwy gontractau ar ymchwil i gasglu agweddau'r cyhoedd tuag at faterion allweddol;
- Lledaenu canfyddiadau ymchwil i gydweithwyr polisi a chwsmeriaid eraill;

- Cysylltu'n agos â staff eraill ar draws Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth a datblygu arbenigedd;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i greu systemau monitro a gwerthuso newydd i fonitro rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Gellid gwneud hyn drwy ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol. Mae ein hymchwilwyr yn manteisio ar wybodaeth feintiol ac ansoddol yn eu rolau.

Mae llawer o brosiectau ymchwil yn Llywodraeth Cymru wedi'u contractio allan i gwmnïau ymchwil, felly mae rhywfaint o reoli contractau yn gysylltiedig â'r rôl. Yn dibynnu ar y tîm ymchwil, yn aml mae angen rhyngweithio â sefydliadau'r trydydd sector, academyddion ac adrannau eraill y Llywodraeth. Gan fod Llywodraeth Cymru yn cwmpasu llawer o feysydd polisi, mae cyfleoedd i symud o gwmpas i weithio o fewn gwahanol feysydd polisi.

Asesir ymgeiswyr ar gyfer rolau GSR gan ddefnyddio dull Proffil Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil o recriwtio. Mae Fframwaith Technegol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth wedi'i gynhrychu i gyd-fynd â phroffiliau llwyddiant, ac mae'n rhoi mwy o wybodaeth am y sgiliau technegol a chyfathrebu sydd eu hangen ar gyfer graddau Swyddog Ymchwil (HEO) ac Uwch Swyddog Ymchwil (SEO).

Y cyfleoedd i ddatblygu a gynigir gan y swyddi

Yn Llywodraeth Cymru, byddwch yn cael cefnogaeth a chymorth i ddatblygu eich sgiliau yn y gweithle. Byddwch yn aelod gwerthfawr o'r tîm o'r diwrnod cyntaf.

Dyma gyfle gwych i gael dylanwad drwy ddod â'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad gwerthfawr i adran arall o'r llywodraeth.

Nid yw cyfleoedd am ddyrchafiad dros dro neu barhaol ar gael drwy'r cyfle hwn; fodd bynnag, byddwch yn gallu datblygu eich gallu a'ch sgiliau, ennill profiad gwerthfawr ac ehangu rhwydweithiau drwy fod yn rhan o ystod eang o waith hanfodol, gan gynnwys blaenoriaethau megis yr ymateb i Covid-19, argyfwng Wcráin a Phontio'r UE.

4. Sut i wneud cais

Cyn gwneud cais am y cyfle hwn, sicrhewch eich bod wedi cael cymeradwyaeth / awdurdodiad eich rheolwr llinell a'r sefydliad (Adnoddau Dynol) i gael eich rhyddhau. Ar hyn o bryd rydym yn gofyn a oes modd rhyddhau ymgeiswyr am gyfleoedd tymor byr (6-12 mis) neu gyfleoedd hirdymor (hyd at 2 flynedd). Gofynnir i chi ddatgan ar y ffurflen gais a oes gennych ddiddordeb mewn cyfleoedd tymor byr, cyfleoedd hirdymor, neu'r ddau.

Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno trwy system ar-lein Llywodraeth Cymru.

I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad cyfrif e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi ynglŷn â'r broses ddethol.

Os oes gennych amhariad sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost at: recriwtioallanol@llyw.cymru i ofyn am becyn ymgeisio mewn fformat arall, neu i ofyn am addasiadau rhesymol sy'n gysylltiedig ag amhariad, er mwyn cyflwyno'ch cais.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin ar yr un sail.

Sicrhewch eich bod yn cwblhau a chyflwyno'r templed cais symud ar draws a ddarperir yn yr hysbyseb swydd. Os na fydd hwn yn cael ei gyflwyno, ni fydd y cais yn cael ei ystyried.

Gwybodaeth am Amrywiaeth

Mae'r Gwasanaeth Sifil wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen hon yn cael ei datgelu i unrhyw un a fydd yn asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb ei ateb.

Problemau technegol ar-lein

Anfonwch e-bost i recriwtioallanol@llyw.cymru

5. Proses Ddethol a Pharu

Byddwn yn paru ymgeiswyr llwyddiannus â'r swyddi blaenoriaeth sy'n gweddu orau i'w gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad a'r dystiolaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn gofynion y swydd.

Mae 3 cham i'r broses o ddethol a pharu.

Cam 1 - Asesiad sifftio cychwynnol

Bydd y dystiolaeth a ddarperir ar eich **ffurflen gais i symud ar draws** yn cael ei hasesu gan banel sifftio.

Os yw'r panel yn ystyried bod y dystiolaeth yn gymwys, bydd eich cais yn mynd ymlaen i'r cam paru.

Cam 2 – Ymarfer Paru

Wrth baru, bydd y sgiliau, y profiad a'r dystiolaeth a ddarperir yn y ffurflen gais yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r rolau blaenoriaeth sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru bryd hynny.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn i chi ddatgan pa grŵp/adran yr hoffech weithio ynddo a nodi a oes gennych ddiddordeb mewn maes gwaith blaenoriaeth craidd. Er y byddwn yn ystyried hyn yn yr ymarfer paru, ni allwn warantu y byddwn yn bodloni'ch dewis ond gallwn ddweud na fyddem yn eich paru â maes yr ydych wedi datgan dymuniad i'w osgoi.

Yn ogystal, er y bydd y panel paru yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i swydd addas ichi, ni allwn warantu cynnig o swydd neu gynnig o swydd benodol.

Cam 3 - Canlyniadau

Cewch eich hysbysu o'r canlyniad drwy'r system ar-lein, hy:

- **Aflwyddiannus yng Ngham 1 (y sifft gychwynnol).** O'r dystiolaeth a ddarparwyd, nid oeddech yn cwrdd â'r lleiafswm safon ofynnol ac felly ni chawsoch eich ystyried ar gyfer eich paru â swydd.

- **Llwyddiannus yng Ngham 1 (sifft gychwynnol) ond doedd dim modd dod o hyd i swydd addas yng Ngham 2 (paru).** Fe gewch chi eich cadw ar restr wrth gefn am gyfnod o 12 mis.

- **Paru'n llwyddiannus yng Ngham 2.** Nid oes unrhyw ofyniad i gynnal cyfweliad ffurfiol. Yn hytrach, byddwn yn trefnu sgwrs ragarweiniol anffurfiol gyda'r rheolwr llinell. Pan fyddwch chi a'r rheolwr llinell wedi cadarnhau, bydd y broses benthyciad o'r tu allan yn dechrau. Rhaid ichi fod ar gael i gael eich rhyddhau ar unwaith, oherwydd unwaith y byddwch wedi eich paru i rôl bydd disgwyl i chi ddechrau yn y swydd yn gyflym. Byddwn mewn cysylltiad â chi a'ch sefydliad i gytuno ar y trefniadau angenrheidiol.

  Ar ôl ichi gael cadarnhad eich bod wedi eich paru i swydd, ni fyddwch yn gymwys i wneud cais i gael eich paru i swydd arall neu i swydd newydd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am swyddi sy'n cael eu hysbysebu'n allanol drwy gystadleuaeth agored.

6. Telerau'r Penodiad

Mae'r rhain yn gyfleoedd benthyciad o'r tu allan, sydd ar gael i weithwyr Gwasanaeth Sifil y DU (a recriwtiwyd drwy gystadleuaeth deg ac agored), ar sail symud ar draws ar eich gradd swydd bresennol. Bydd staff ar fenthyciad o'r tu allan yn trosglwyddo i Delerau ac Amodau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru.

Tâl

Mae staff ar fenthyciad o'r tu allan yn cael eu cynnwys ar gyflogres Llywodraeth Cymru am gyfnod y benthyciad. Bydd eich cyflog yn trosglwyddo i'r pwynt agosaf ar

raddfa gyflog berthnasol Llywodraeth Cymru. Mae'r graddfeydd cyflog presennol yn Atodiad A.

Unwaith y byddwch wedi eich paru i bwynt graddfa, byddwch yn symud i fyny'r raddfa gyflog fel y bo'n briodol drwy gydol y cyfnod y benthyciad. **Yn Llywodraeth Cymru, bydd staff sy'n ymuno a'r sefydliad rhwng 1 Ionawr a 30 Mehefin yn symud i fyny hicyn ar y raddfa gyflog ym mis Ionawr, a staff sy'n ymuno â'r sefydliad rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr yn symud i fyny ym mis Gorffennaf. Er enghraifft, byddai rhywun sy'n ymuno â'r sefydliad ar 10 Rhagfyr 2022 yn symud i fyny'r raddfa ym mis Gorffennaf 2023 a byddai rhywun sy'n ymuno â'r sefydliad ar 10 Ionawr 2022 yn symud i fyny'r raddfa ym mis Ionawr 2023.** Byddwch yn dychwelyd i'ch cyflog parhaol wrth ddychwelyd i'ch Cyflogwr.

Lwfansau

Os byddwch yn cael eich paru i rôl sy'n denu lwfans proffesiynol, byddwch yn derbyn y lwfans ar y gyfradd gyflog briodol.

Fodd bynnag, os ydych yn cael lwfans proffesiynol gan eich cyflogwr presennol ar hyn o bryd ond eich bod yn cael eich paru i rôl lle nad yw'r sgiliau hynny'n ofynnol / rôl nad yw'n denu lwfans proffesiynol, bydd angen ystyried a fydd y lwfans yn cael ei dalu fel rhan o'r cytundeb benthyg.

Bydd unrhyw lwfansau eraill yn daladwy os ydynt yn gysylltiedig â'r rôl e.e. Lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol.

Trefniadau Cyflog eraill

Nid yw trefniadau cyflog eraill fel y cynllun aberthu cyflog, talebau gofal plant, taliad cyflog ymlaen llaw, cynllun beicio i'r gwaith neu rywbeth tebyg, yn drosglwyddadwy fel rhan o'r cytundeb benthyg. Os oes gennych chi drefniadau o'r fath ar waith gyda'ch cyflogwr presennol, ac wedi cael eich paru'n llwyddiannus â swydd gyda Llywodraeth Cymru, bydd angen i chi gysylltu â'ch tîm cyflogres eich hun i weld beth y gellir ei wneud fel rhan o drefniadau'r benthyciad.

Teithio a Chynhaliaeth

Bydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â theithio a chynhaliaeth, a fydd yn cael eu gwario gennych a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod benthyg wrth arfer y Gwasanaethau, os dangosir tystiolaeth o dreuliau o'r fath fel y nodir gan Lywodraeth Cymru.

Cewch hawlio costau teithio a chynhaliaeth ar gyfraddau safonol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u nodi yn y polisi teithio a chynhaliaeth.

Oriau gwaith

Mae'r swyddi hyn ar gael ar sail rhan-amser, rhannu swydd ac amser llawn. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser ac os yw rhywun sydd eisiau gweithio'n rhan-amser yn llwyddiannus yng Ngham 1, byddwn yn ceisio eich paru i swydd ran-amser neu wneud addasiadau cymesur i gyfrifoldebau swydd os oes swydd a all fod yn addas i chi.

Gwyliau

Bydd gennych hawl i gael gwyliau blynyddol ac amser i ffwrdd yn unol â Pholisi Gwyliau Blynyddol Llywodraeth Cymru, Polisi Gwyliau Cyhoeddus a Gwyliau Braint a pholisïau absenoldeb am resymau teuluol. Mae gan weithwyr amser llawn hawl i 31 diwrnod o wyliau blynyddol, ynghyd â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a gwyliau braint, pro rata i weithwyr rhan-amser.

Byddwch yn gymwys i gael tâl salwch, tâl gwyliau ac unrhyw hawliau absenoldeb yn unol â thelerau ac amodau Llywodraethau Cymru. Gall trefniadau gweithio hyblyg fod yn berthnasol yn unol â Pholisi Oriau Gwaith Llywodraethau Cymru, fodd bynnag mae'n rhaid clirio unrhyw gredyd neu ddiffyg a gronnwyd yn eich adran bresennol cyn dechrau cyfnod y benthyciad, a rhaid clirio unrhyw gredyd neu ddiffyg a gronnir yn ystod eich amser yn Llywodraeth Cymru cyn diwedd cyfnod y benthyciad.

Pensiwn

Byddwch yn aros yng nghynllun pensiwn y gwasanaeth sifil oni bai eich bod wedi dewis optio allan o gynllun pensiwn.

Yswiriant Budd-dal Anafiadau

Byddwch yn dod o dan yswiriant budd-dal anafiadau Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod benthyg ar gyfer unrhyw anaf cymwys sy'n digwydd yn ystod cyfnod y benthyciad.

Perfformiad a Hyfforddiant

Bydd amcanion yn cael eu cytuno rhyngoch chi a'r rheolwr llinell ar ddechrau'r cyfnod benthyg gydag adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr adegau y cytunwyd arnynt. Bydd y rheolwr llinell yn trefnu rhaglen gynefino/hyfforddiant fel y bo'n briodol.

Cefnogir pawb yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd, sy'n cynnwys sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu a datblygu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd dysgu a datblygu a sicrhau bod ein staff yn cael isafswm o 5 diwrnod o ddysgu bob blwyddyn. Mae gennych hawl i wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd dysgu a gynigir gan Lywodraeth Cymru drwy gytundeb â'ch rheolwr llinell.

Lleoliad

Mae ‘Cymru Gyfan’ yn golygu bod lleoliad y swydd wag yn hyblyg, yn amodol ar anghenion y busnes. Sylwch efallai na fydd bob amser yn bosibl sicrhau y cewch weithio o swyddfa benodol, ond bydd ceisiadau'n cael eu hystyried.

Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd yn Aberystwyth, Bedwas, Caernarfon, Caerdydd, Caerfyrddin, Llandrindod, Cyffordd Llandudno, Merthyr Tudful, y Drenewydd ac Abertawe. Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus fynegi dewis lleoliad yn ystod y cam penodi, os yw nifer o leoliadau yn cael eu cynnig ar gyfer y rôl.

Rydym yn gefnogol i batrymau gweithio hyblyg ac yn teilwra patrymau gweithio i amgylchiadau unigol os yw anghenion busnes yn caniatáu. Yn dibynnu ar natur y rôl, efallai y bydd modd i ymgeiswyr llwyddiannus gytuno i weithio rhai o'u horiau gwaith o adref trwy drefniant anffurfiol gyda'u rheolwr llinell.

Cofiwch mai dim ond yn y DU y gellir gweithio pob rôl a recriwtiwyd iddi yn yr ymgyrch hon, nid dramor.

Gweithio'n Glyfar

Mae Llywodraeth Cymru yn annog trefniadau gweithio'n glyfar. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar sut rydych yn defnyddio'ch amser a ble a sut rydych yn gweithio i ddiwallu anghenion y busnes yn y ffordd fwyaf hyblyg a chynhyrchiol posibl. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i staff. Mae gweithio clyfar a hyblyg yn dod yn nodwedd barhaol o fywyd gwaith yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru'n arwain y ffordd yn hyn o beth.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylai ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt a allai arwain at gwestiynau am y ffordd y maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi mewn awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, ar gyfer eu hunain ac ar gyfer eu gŵr neu wraig neu bartner.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff buddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Yn sail i hyn mae Deddf Cydraddoldeb 2010, a chedwir at y ddeddf hon ym mhob cam o'r broses recriwtio. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru trwy gael gwared ar rwystrau a chefnogi ein holl staff i gyrraedd eu potensial. Rydyn ni wedi ymrwymo i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl sydd wedi'u tangynrychioli yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb waeth beth fo'u hoedran, statws priodasol a phartneriaeth sifil (o'r un rhyw a rhyw arall), nam neu gyflwr iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd.

Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac yn sefydliad Hyderus o Ran Anabledd Lefel 3 (Arweinydd). Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig (MESN); Materion y Meddwl (Iechyd meddwl a llesiant); Prism (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Rhyngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

Cwynion

Dylai unrhyw un sy'n credu eu bod wedi cael eu trin yn annheg, neu sydd â chŵyn ynghylch sut y cynhaliwyd y broses naill ai ysgrifennu at y Pennaeth Adnoddau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, Caerdydd CF10 3NQ neu anfon e-bost at recriwtioallanol@llyw.cymru. Os ydych yn anhapus gyda chanlyniad y gŵyn a godwyd gyda Llywodraeth Cymru ac yn teimlo na chafodd yr egwyddorion penodi ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored eu dilyn, mae gennych yr hawl i drafod eich cwyn gyda Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn 3rd Floor, 35 Great Smith Street, London SW1P 3BQ.

ATODIAD A

TS

Pwynt Graddfa	Ebrill 2021
1	£21,300
2	£22,960
3	£24,630

EO

Pwynt Graddfa	1 Ebrill 2021
1	£25,860
2	£26,820
3	£29,430

HEO

Pwynt Graddfa	1 Ebrill 2021
1	£31,210
2	£33,190
3	£35,180
4	£38,160

SEO

Pwynt Graddfa	1 Ebrill 2021
1	£40,100
2	£41,980
3	£44,200
4	£47,470

Gradd 7

Pwynt Graddfa	1 Ebrill 2021
1	£51,380
2	£54,280
3	£57,190

4	£61,440